

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Ymchwiliad Dilynol i Wasanaethau  
Mabwysiadu yng Nghymru**

**Mawrth 2016**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565  
E-bost: [SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru)  
Twitter: [@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Ymchwiliad Dilynol i Wasanaethau  
Mabwysiadu yng Nghymru**

Mawrth 2016

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Ar 22 Ionawr 2014, cytunodd y Cynulliad i newid cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Bydd y pwnc yn parhau yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd, gyda'r ddau bwyllgor yn ystyried Addysg Uwch o'u safbwyntiau penodol. Enw blaenorol y Pwyllgor oedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Ann Jones (Cadeirydd)**  
Llafur Cymru  
Dyffryn Clwyd



**Angela Burns**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir  
Benfro



**Keith Davies**  
Llafur Cymru  
Llanelli



**Suzy Davies**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**John Griffiths**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd



**Rhodri Glyn Thomas**  
Plaid Cymru  
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**Lynne Neagle**  
Llafur Cymru  
Torfaen



**David Rees**  
Llafur Cymru  
Aberafan



**Aled Roberts**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Gogledd Cymru



**Simon Thomas**  
Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

## Argymhellion

---

**Argymhelliad 1.** Dylai'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gadw llygad ar gynnydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol o ran cyflawni'r flaenoriaeth benodol o sicrhau, lle bo'n briodol, bod gwasanaethau'n gyson ac o safon uchel. Tudalen 4

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru / Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol sicrhau eu bod yn fodlon bod y data ynghylch mabwysiadu yn gadarn ac yn cael eu casglu a'u dehongli mewn ffordd gyson, a hynny cyn gynted â phosibl. Tudalen 5

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad amserol o gymorth ar ôl mabwysiadu ac, os oes angen, dylai drosglwyddo cyfrifoldeb ac adnoddau am asesu anghenion sy'n codi ar ôl mabwysiadu i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Tudalen 8

**Argymhelliad 4.** Dylai'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gadw llygad ar y defnydd o arian ar gyfer cymorth ar ôl mabwysiadu i sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian ac yn ymdrin ag anghenion mabwysiadwyr a'r plant y maent yn eu mabwysiadu. Tudalen 8

**Argymhelliad 5.** Dylai'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg chwilio am wybodaeth bellach ynghylch canlyniadau'r adolygiad cyflym o broses y Grant Amddifadedd Disgyblion a goblygiadau'r canfyddiadau i blant sydd wedi'u mabwysiadu. Tudalen 10

**Argymhelliad 6.** Dylai'r adolygiad cyflym o broses y Grant Amddifadedd Disgyblion ystyried pa mor dda y mae Consortia Rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau'r effaith orau o ran y grant. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried lefelau presenoldeb athrawon a llywodraethwyr ysgol yn y digwyddiadau hyfforddi sy'n berthnasol i fabwysiadu a ariennir drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Tudalen 10

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch y symiau sydd wedi'u dyrannu ar gyfer cymorth bwrsariaeth i blant penodol a'r canlyniadau y mae'n disgwyl eu gweld o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw. Tudalen 10

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y rhaglen dair blynedd newydd ar gyfer newid mewn CAMHS, Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, yn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen

ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu, a bod eu hanghenion yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau niwro-ddatblygiadol penodedig newydd a'r cyllid ar gyfer therapïau seicolegol. Tudalen 10

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru/y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithio gyda chynrychiolwyr ar lefel ranbarthol ac awdurdod lleol a rhanbarthol i fwrw ymlaen â manyleb genedlaethol y cytunir arni ar gyfer gwaith cofnodi profiadau bywyd. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gan staff y gallu a'r sgiliau i gyflawni'r gwaith hwn. Tudalen 12

**Argymhelliad 10.** Dylai'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gadw llygad ar y cynllun Maethu i Fabwysiadu i sicrhau ei fod yn addas at y diben ac yn sicrhau canlyniadau gwell i blant a darpar fabwysiadwyr. Tudalen 13

**Argymhelliad 11.** Dylai'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ystyried gallu a sgiliau'r gweithlu mewn unrhyw waith y bydd yn ei wneud yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu. Tudalen 13

## Cyflwyniad

---

1. Ym mis Chwefror 2016, cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad dilynol i wasanaethau mabwysiadu. Cyhoeddwyd adroddiad ar ei ymchwiliad gwreiddiol ym mis Tachwedd 2012.
2. Yn ystod yr ymchwiliad dilynol hwn, cyfarfu'r Pwyllgor â darpar fabwysiadwyr neu rieni sydd wedi mabwysiadu. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ym Mae Colwyn a Chaerdydd ac mae nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad A. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r teuluoedd a gymerodd ran am roi o'u hamser i rannu eu profiadau gyda'r Aelodau.
3. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan:
  - Adoption UK Cymru;
  - Astudiaeth Carfan Mabwysiadu Cymru;
  - Comisiynydd Plant Cymru; a'r
  - Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
4. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ffeithiol ar gynnydd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
5. Mae ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor i'w gweld ar [wefan](#) y Pwyllgor.

## Pa gynnydd sydd wedi bod ers ymchwiliad y Pwyllgor yn 2012?

---

6. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad dilynol y Pwyllgor yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol am y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a'r cynnydd y mae wedi'i wneud. Roedd y cyfranwyr yn nodi ei fod wedi sefydlu seilwaith priodol yn gyflym, wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac wedi sefydlu systemau i gasglu data ar fabwysiadu. Hefyd cafwyd rhai ymatebion cadarnhaol ynghylch recriwtio, asesu a pharatoi rhieni ar gyfer mabwysiadu.
7. Clywodd y Pwyllgor y gwnaed peth cynnydd da o ran camau 'cynnar' y broses fabwysiadu, fel recriwtio a hyfforddiant.
8. Fodd bynnag, mynegodd cyfranwyr bryderon ynghylch y diffyg cynnydd mewn rhai o'r meysydd polisi ac arfer mwy 'heriol'. Yn benodol, roedd pryderon difrifol o hyd ynghylch y ddarpariaeth cymorth ar ôl mabwysiadu (yn benodol gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, gwasanaethau

cymdeithasol a gwasanaethau addysg). Clywsom hefyd am dystiolaeth sy'n peri pryder, sef mai dim ond nifer gymharol fach o blant sy'n cael gwaith o ansawdd ym maes cofnodi profiadau bywyd.

**Prif bryderon y Pwyllgor yw:**

- **amrywiaeth ar draws rhanbarthau Cymru,**
- **diffyg parhaus o ran cymorth ar ôl mabwysiadu a'r effaith sylweddol a difrifol iawn y gallai hyn ei chael ar blant a'u teuluoedd,**
- **nad yw'r mwyafrif o blant sy'n cael eu mabwysiadu yn cael gwaith o ansawdd ym maes cofnodi profiadau bywyd.**

***Amrywiaeth ar draws rhanbarthau***

9. Mae'n amlwg o'r data sydd ar gael bod amrywiaeth ar draws y rhanbarthau o ran y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Fodd bynnag, mae'n debyg ei bod yn rhy gynnar i allu defnyddio'r data i nodi'r rhesymau dros yr amrywiaeth hon.

10. Mae'r Pwyllgor yn credu bod sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn hanfodol ac mai dyma yw un o brif ddibenion cael gwasanaeth cenedlaethol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal gwasanaethau rhag cael eu teilwra i ddiwallu anghenion poblogaethau lleol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog mai cysondeb fydd un o brif flaenoriaethau'r gwasanaeth mabwysiadu yn ystod ei ail flwyddyn, ac mae'n credu y dylid cadw llygad ar gynnydd.

**Argymhelliad: Dylai'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gadw llygad ar gynnydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol o ran cyflawni'r flaenoriaeth benodol o sicrhau, lle bo'n briodol, bod gwasanaethau'n gyson ac o safon uchel.**

***Casglu data***

11. O ran casglu a dehongli data, mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Gweinidog ei bod yn rhy gynnar i weld a yw'r data yn dangos tueddiadau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi'i hysgwyddo i sicrhau bod y data sylfaenol yn cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf.

12. Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen data cadarn i nodi lle y mae angen i wasanaethau wella, ac mae'n pryderu nad yw data'n cael eu casglu mewn



ffordd gyson ar draws y rhanbarthau. Bydd hyn yn tanseilio gwerth y data yn sylweddol ac mae'n rhaid rhoi sylw i'r mater hwn.

13. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y data'n cael eu dehongli'n gywir. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gallu manteisio ar yr arbenigedd a fydd yn ei alluogi i ddehongli'r data a chynllunio gwasanaethau mewn ymateb i hyn.

**Argymhelliad: Rhaid i Lywodraeth Cymru/y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol sicrhau eu bod yn fodlon bod y data ynghylch mabwysiadu yn gadarn ac yn cael eu casglu a'u dehongli mewn ffordd gyson, a hynny cyn gynted â phosibl.**

### ***Targedau***

14. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi gosod targed i gynyddu 25 y cant ar nifer y mabwysiadwyr cymeradwy. Mae'r Pwyllgor yn credu y gall targedau o'r fath fod yn ddefnyddiol o ran rhoi her ac ysgogiad i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod y targed hwn yn briodol.

15. Mae dyfarniad Syr James Munby ynghylch gorchmynion mabwysiadu wedi arwain at lai o blant yn cael eu dwyn ymlaen ar gyfer eu mabwysiadu. Yn ogystal, mae rhai rhanbarthau yn defnyddio dull mwy penodol o ganfod rhieni priodol ar gyfer y mathau o blant sy'n cael eu dwyn ymlaen, e.e. brodyr a chwiorydd. Mae'r Pwyllgor yn credu, o ganlyniad i'r ffactorau hyn ac eraill, y dylai'r Gwasanaethau roi ystyriaeth bellach i briodoldeb y targed hwn.

16. Yn wir, os yw'r rhanbarthau yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol fel yr amlinellir uchod, bydd yn anodd i'r Gwasanaeth osod targedau ystyrlon. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai unrhyw dargedau o'r fath fod yn seiliedig ar gynyddu nifer y plant sy'n cael eu mabwysiadu'n llwyddiannus.

### ***Mewnbwn gan y meysydd gwasanaeth perthnasol***

17. Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas â phennu trefniadau llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, gan ddweud eu bod wedi setlo'n dda iawn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r trefniadau cenedlaethol hyn yn digwydd hefyd ar lefel ranbarthol. Er enghraifft, clywodd y Pwyllgor fod rhai byrddau rhanbarthol wedi cael anawsterau o ran sicrhau bod cynrychiolwyr y sector addysg yn

mynychu cyfarfodydd. Hefyd, clywodd y Pwyllgor bryderon nad oedd unrhyw drefniadau partneriaeth pendant ar lefel weithredol gyda'r trydydd sector.<sup>1</sup>

18. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i sicrhau bod meysydd gwasanaeth perthnasol yn cyfrannu at waith rhanbarthol.

### ***Recruiwio, asesu a pharatoi mabwysiadwyr***

19. Cyfeiriodd nifer o gyfranwyr at waith dilynol y Pwyllgor ynghylch y broses o baratoi cyn mabwysiadu, gan gyfeirio'n benodol at ddarpar fabwysiadwyr yn datblygu dealltwriaeth lawn o'r ymrwymiad y maent yn ei wneud a'r heriau posibl.

20. Mae'n bwysig galluogi rhieni i ddeall yn llawn yr hyn y maent yn ymrwymo iddo. Gall deall mwy am gefndir y plant y maent yn eu mabwysiadu alluogi rhieni hefyd i adnabod arwyddion cynnar o broblemau a darparu gwell cymorth i'r plant hyn.

21. Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Gweinidog fod gweithwyr cymdeithasol yn wynebu heriau wrth gyflwyno'r ffeithiau llawn unrhyw achos i ddarpar rieni mabwysiadu. Serch hynny, rhaid i rieni sy'n mabwysiadu wybod y gwir am yr ymrwymiad y byddant yn ei wneud. At hynny, ni ddylai rhieni sy'n mabwysiadu deimlo nad ydynt wedi cael gwybodaeth a allai fod wedi helpu eu plentyn.

## **Cymorth ar ôl mabwysiadu**

---

22. Mae ymatebion i'r ymchwiliad dilynol yn awgrymu bod y cynnydd o ran gwella cymorth ar ôl mabwysiadu wedi bod yn fach iawn, os bu cynnydd o gwbl. Nododd y Comisiynydd Plant mai cymorth ar ôl mabwysiadu yw'r un maes y mae angen canolbwyntio arno a buddsoddi ynddo. Roedd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cydnabod mai datblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu yw ei her fwyaf mae'n debyg. Ategwyd hyn gan Gymdeithas Plant Dewi Sant.

### ***Darparu cymorth ar ôl mabwysiadu***

23. O ystyried y diffyg cynnydd, dychwelodd y Pwyllgor at y cwestiwn ynghylch a fyddai'n briodol i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ymgymryd â'r rôl o asesu anghenion cymorth sy'n codi ar ôl mabwysiadu.

---

<sup>1</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Dewi Sant

Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn agored i ddull gweithredu o'r fath o hyd, ond bod dadleuon o blaid ac yn erbyn hyn. Dywedodd fod nifer o fanteision yn deillio o ddarparu cymorth ar lefel leol. Gall darparu cymorth ar lefel genedlaethol wanhau lefel y cyfrifoldeb a ddylai fod ar y bobl hynny sydd wedi cymryd rhan yn y broses o'r dechrau i fwrw ymlaen tan y diwedd.

### ***Ariannu cymorth ar ôl mabwysiadu***

“We are aware that adopters are watching the levels of investment that are happening in other parts of the UK, particularly just across the border in England and asking why the same isn't happening in Wales. It is difficult to provide a justification for this.”

#### Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod awdurdodau lleol yn Lloegr, ers 2013, wedi gallu gwneud cais i Gronfa Cymorth Mabwysiadu benodol er mwyn ariannu gwasanaethau therapi hanfodol i deuluoedd sy'n mabwysiadu. Holodd nifer o randdeiliaid a rhieni pam nad oes cronfa o'r fath ar gael yng Nghymru o ystyried yr anghenion a'r diffyg cynnydd a nodwyd. Dywedodd y Gweinidog, er bod y gronfa yn Lloegr wedi bod yn llwyddiannus mewn rhai ffyrdd, fod ganddo rai pryderon y gallai system sy'n seiliedig ar geisiadau unigol olygu nad yw'r cyllid yn cyrraedd y rheini sydd fwyaf mewn angen. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd fod angen ystyried symud oddi wrth brynu yn ôl y galw a chomisiynu lleol tymor byr.

25. Dywedodd y Gweinidog fod £1.2 miliwn yn cael ei ddarparu i sefydliadau trydydd sector (After Adoption, Adoption UK a Chymdeithas Plant Dewi Sant) dros y tair blynedd nesaf i ddarparu cymorth ar ôl mabwysiadu ledled Cymru. Byddai hyn yn golygu y gall pob mabwysiadwr elwa ar y cymorth sydd ar gael. Fodd bynnag, ni fydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi plant a theuluoedd unigol.

26. Dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid er mwyn i fabwysiadwyr newydd yng Nghymru ddod yn aelodau o Adoption UK yn awtomatig. Bydd hyn yn rhoi mynediad, drwy e-bost a'r post, at ddeunyddiau cyfeirio a gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru.

27. Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon rhanddeiliaid a mabwysiadwyr ynghylch darparu cymorth ar ôl mabwysiadu. Mae gennym bryderon difrifol bod y cynnydd o ran yr agwedd hon ar wasanaethau mabwysiadu wedi bod yn gyfyngedig iawn ac nad yw rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i

niwed yng Nghymru a'u teuluoedd yn cael yr help mae ei angen arnynt o hyd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r rhwystredigaeth gan rieni nad yw'r arian ar gyfer ymyriadau therapiwtig hanfodol ar sail unigol yr un mor hygyrch yng Nghymru ag y mae yn Lloegr.

28. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r arian sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer cymorth ar ôl mabwysiadu. Bydd yn bwysig monitro effeithiolrwydd y dull gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddewis, a yw'r cyllid yn ddigonol, ac a oes angen elfen o'r arian y gellir ei defnyddio ar gyfer pecynnau cymorth unigol.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad amserol o gymorth ar ôl mabwysiadu ac, os oes angen, dylai drosglwyddo cyfrifoldeb ac adnoddau am asesu anghenion sy'n codi ar ôl mabwysiadu i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.**

**Argymhelliad: Dylai'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gadw llygad ar y defnydd o arian ar gyfer cymorth ar ôl mabwysiadu i sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian ac yn ymdrin ag anghenion mabwysiadwyr a'r plant y maent yn eu mabwysiadu.**

#### ***Grant Amddifadedd Disgyblion***

29. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ymestyn i gynnwys plant sydd wedi'u mabwysiadu. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i blant sydd wedi'u mabwysiadu wedi digwydd heb gynnydd cyfatebol yn y cyllid. Mae gan y Pwyllgor bryderon am y dull gweithredu hwn a'r effaith bosibl ar blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu o ganlyniad i wasgaru fwyfwy yr arian sydd ar gael.

30. Mae cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael ei ddyrannu i ysgolion, ond mae cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu yn cael ei ddyrannu i gonsortia rhanbarthol yn seiliedig ar amcangyfrif o nifer y plant sydd wedi'u mabwysiadu yn eu rhanbarth. Mae cynlluniau gwariant y consortia ar gyfer yr elfen hon o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cynnwys:

- Cyllid ar gyfer hyfforddiant pwrpasol fel pecynnau hyfforddiant emosiynol, ymddygiadol ac ymwybyddiaeth ar gyfer ysgolion, gan gynnwys gofalwyr maeth, rhieni sy'n mabwysiadu a llywodraethwyr ysgol;

- Cyllid ar gyfer rhannu arfer da drwy gydweithio rhwng ysgolion; ac
- Clustnodi cyfran o'r arian fel cymorth bwrsariaeth ar gyfer plant penodol – mae hyn yn cynnwys pecynnau cymorth ar gyfer unigolion a grwpiau fel gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i wella sgiliau emosiynol a chymdeithasol dysgwyr.<sup>2</sup>

31. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn anodd o safbwynt gweinyddol i ddyrannu'r Grant Amddifadedd Disgyblion fesul disgybl, yn bennaf oherwydd nad yw awdurdodau lleol ac ysgolion o reidrwydd yn ymwybodol bod plentyn wedi cael ei fabwysiadu. Mae hefyd yn bosibl, o ystyried nifer y plant sydd wedi'u mabwysiadu, y gellir manteisio i'r eithaf ar werth am arian ac effaith drwy ddyrannu arian y Grant Amddifadedd Disgyblion i gonsortia i'w weinyddu ar sail ranbarthol.

32. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dylid defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella cyrhaeddiad addysgol disgyblion, sef disgyblion sy'n cael eu mabwysiadu yn yr achos hwn. Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o anghenion plant sydd wedi'u mabwysiadu yn rhywbeth i'w groesawu, ond mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd ymyriadau o'r fath yn cael llai o effaith nag ymyriadau sydd wedi'u targedu'n fwy i fynd i'r afael ag anghenion penodol y plentyn.

33. At hynny, mae gan y Pwyllgor rai pryderon ynghylch priodoldeb defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dalu am ddatblygiad proffesiynol athrawon a llywodraethwyr ysgol. Os yw'r Gweinidog wedi nodi bod hyfforddiant o'r fath yn angenrheidiol, dylai cyllidebau hyfforddiant presennol dalu'r costau hyn.

34. Nid yw'n glir pa gyfran o'r cyllid fydd yn cael ei thargedu'n uniongyrchol at blant sydd wedi'u mabwysiadu ac a yw'r gyfran honno'n briodol.

35. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Addysg a Sgiliau sef, o fis Ebrill 2016, y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno proses adolygiad cyflym i werthuso effeithiolrwydd blwyddyn gyntaf y trefniadau ariannu newydd. Bydd y broses hon yn hanfodol o ran monitro effaith y defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ac a yw'r ymyriadau a ddewisir yn cynnig gwerth am arian.

36. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gofyn i rieni yn Lloegr roi gwybod i'r ysgol am fabwysiadu. O ystyried yr anawsterau sydd ynghlwm wrth adnabod plant

---

<sup>2</sup> [Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, llythyr – 13 Ionawr 2016](#)

sydd wedi'u mabwysiadu yng Nghymru, a thargeddu cymorth o ganlyniad, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y manteision posibl o gyflwyno dull gweithredu i alluogi rhieni i roi gwybod i ysgolion. Yna, gellid defnyddio'r wybodaeth hon fel sail ar gyfer dyrannu cymorth.

**Argymhelliad: Dylai'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg chwilio am wybodaeth bellach ynghylch canlyniadau'r adolygiad cyflym o broses y Grant Amddifadedd Disgyblion a goblygiadau'r canfyddiadau i blant sydd wedi'u mabwysiadu.**

**Argymhelliad: Dylai'r adolygiad cyflym o broses y Grant Amddifadedd Disgyblion ystyried pa mor dda y mae Consortia Rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau'r effaith orau o ran y grant. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried lefelau presenoldeb athrawon a llywodraethwyr ysgol yn y digwyddiadau hyfforddi sy'n berthnasol i fabwysiadu a ariennir drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion.**

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch y symiau sydd wedi'u dyrannu ar gyfer cymorth bwrsariaeth i blant penodol a'r canlyniadau y mae'n disgwyl eu gweld o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw.**

***Cymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu***

37. Mynegodd cyfranwyr i'r ymchwiliad bryderon difrifol ynghylch mynediad at wasanaethau CAMHS a chymorth ar gyfer materion iechyd meddwl ac ymddygiadol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi amlinellu strategaeth newydd ar gyfer darparu cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, gan gynnwys CAMHS, ac a fydd ar gael i blant sydd wedi'u mabwysiadu. Dywedodd y Gweinidog fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod plant sydd wedi'u mabwysiadu yn elwa'n llawn ar yr adolygiad.

38. Fel rhan o'i adroddiad etifeddiaeth, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r pwyllgor sy'n ei olynu gadw llygad ar y dull newydd hwn o ddarparu cymorth iechyd meddwl, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y gwelliannau y mae eu hangen. Dylai'r gwaith hwn roi pwyslais arbennig ar effaith yr adolygiad ar ganlyniadau i blant sydd wedi'u mabwysiadu.

**Argymhelliad: Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y rhaglen dair blynedd newydd ar gyfer newid mewn**

**CAMHS, Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, yn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu, a bod eu hanghenion yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau niwro-ddatblygiadol penodedig newydd a'r cyllid ar gyfer therapiau seicolegol.**

## **Cofnodi profiadau bywyd**

---

39. Mynegodd cyfranwyr i'r ymchwiliad dilynol bryderon difrifol am y diffyg gwaith ar gofnodi profiadau bywyd a chodwyd nifer o faterion niferus am ansawdd y gwaith hwn, a oedd yn adlewyrchu'r dystiolaeth a glywyd yn ymchwiliad 2012.

40. Mae gwaith ar gofnodi profiadau bywyd yn broses bwysig, sy'n cael ei defnyddio'n aml gyda phlant sydd wedi'u mabwysiadu i'w helpu i ddeall eu gorffennol, eu presennol a'u dyfodol. Defnyddir llyfrau cofnodi profiadau bywyd yn aml i ddarparu cymorth gweledol ac er mwyn atgoffa am ddigwyddiadau neu deimladau pwysig. Gweithiwr cymdeithasol y plentyn sy'n gyfrifol am wneud y gwaith hwn.

41. Mae'r Pwyllgor yn pryderu mai dim ond 38 y cant o blant yn 2015 oedd wedi cael deunyddiau taith bywyd cyn eu hail adolygiad mabwysiadu<sup>3</sup>. Er nad yw'n uniongyrchol gyfrifol am y gwaith hwn, cydnabu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol fod angen cynnydd yn y maes hwn ac mae'n gwneud dadansoddiad pellach o'r materion.

42. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y dylai'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol flaenoriaethu gwaith cofnodi profiadau bywyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli faint o her yw gwaith cofnodi profiadau bywyd. Er enghraifft, mewn rhai achosion, efallai bod gweithwyr cymdeithasol sy'n paratoi gwaith cofnodi profiadau bywyd yn ymdrin â rhieni biolegol sy'n amharod i gydweithredu. Pwysleisiodd y Gweinidog fod gwaith ymchwil gan Brifysgol Caerdydd yn awgrymu bod y gwaith ar gofnodi profiadau bywyd sy'n cael ei wneud o ansawdd da.

43. Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu am y nifer isel o blant wedi'u mabwysiadu sydd wedi gwneud gwaith cofnodi profiadau bywyd a'r diffyg cynnydd yn hynny o beth. Er ei bod efallai'n rhy gynnar i lunio casgliadau o'r data sydd ar gael, mae llawer o fabwysiadwyr wedi mynegi pryderon i'r Pwyllgor ynghylch absenoldeb gwaith o'r fath. Awgrymwyd y byddai model

---

<sup>3</sup> Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

arfer da yn helpu. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y dylai gwaith ar gofnodi profiadau bywyd fod yn flaenoriaeth ac y bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn datblygu manyleb genedlaethol dros y 12 mis nesaf ar gyfer gwaith cofnodi profiadau bywyd y gellir ei defnyddio wedyn ar lefel ranbarthol.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru / y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol weithio gyda chynrychiolwyr ar lefel ranbarthol ac awdurdod lleol a rhanbarthol i fwrw ymlaen â manyleb genedlaethol y cytunir arni ar gyfer gwaith cofnodi profiadau bywyd. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gan staff y gallu a'r sgiliau i gyflawni'r gwaith hwn.**

## **Materion eraill**

---

44. Mynegodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad nifer o bryderon eraill.

### **Cynllunio cydamserol**

45. Yn adroddiad ei ymchwiliad cychwynnol, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu adolygiad i'r rhwystrau rhag cychwyn cynllunio cydamserol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru yr adolygiad, ac wedi hynny dewisodd ddull gweithredu gwahanol, sef Maethu i Fabwysiadu.

46. Yn achos maethu i fabwysiadu, caiff plentyn ei leoli gyda rhieni maeth/mabwysiadu cymeradwy wedi i'r awdurdod lleol benderfynu y dylid gosod y plentyn i'w fabwysiadu, a all fod beth amser ar ôl i'r achos gofal ddechrau. Bydd y plentyn wedi bod mewn lleoliad maeth arall neu leoliadau eraill hyd nes y gwneir y penderfyniad hwnnw. Dywedodd AFA Cymru wrth y Pwyllgor mai prin iawn yw mantais Maethu i Fabwysiadu i blentyn, gan ei fod yn amharu ar ei daith mewn gofal maeth, ond ei bod yn hollbwysig ei leoli cyn gynted â phosibl gyda theulu y gall aros gydag ef am byth<sup>4</sup>. Mae Cymdeithas Plant Dewi Sant ac AFA Cymru yn dweud mai Cymru yw'r unig ran o'r DU nad oes ganddi gynllunio cydamserol ar waith.

47. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod dadleuon o blaid ac yn erbyn y gwahanol ddulliau gweithredu, ond ei fod yn fodlon, ar y cyfan, bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau cywir. Dywedodd y byddai'r broses hon yn effeithio ar nifer fach o blant a bod risgiau i blant a darpar fabwysiadwyr

---

<sup>4</sup> Gweler [ymateb 12](#)



yn sgil lleoli plentyn yn rhy gynnar, yn enwedig yng ngoleuni goblygiadau parhaus 'Dyfarniad Mumby'.

**Argymhelliad: Dylai'r pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gadw llygad ar y cynllun Maethu i Fabwysiadu i sicrhau ei fod yn addas at y diben ac yn sicrhau canlyniadau gwell i blant a darpar fabwysiadwyr.**

#### **Hyfforddi'r gweithlu a gwella sgiliau**

48. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen i wella sgiliau'r gweithlu ac iddo fod yn fwy ymwybodol o faterion ynghylch mabwysiadu. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn hyderus bod cynllun ar waith mewn perthynas â hyfforddi gweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol, ond bod angen gwneud mwy mewn perthynas â hyfforddi staff perthnasol ym maes addysg a gofal sylfaenol. Ychwanegodd y Gweinidog fod angen i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ddangos arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol, ac mai rhan o'i waith fydd nodi bylchau mewn sgiliau ac adrodd y wybodaeth honno i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi allu darparu cymorth.

**Argymhelliad: Dylai'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ystyried gallu a sgiliau'r gweithlu mewn unrhyw waith y bydd yn ei wneud yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu.**

## Atodiad A - Crynodeb o'r trafodaethau â rhieni mabwysiol

---

Ym mis Chwefror 2016, cynhaliodd aelodau'r Pwyllgor gyfarfodydd preifat â rhieni sy'n mabwysiadu a mabwysiadwyr cymeradwy yn y Gogledd a Chaerdydd. Y diben oedd clywed am ba newidiadau, os o gwbl, oedd wedi digwydd ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar wasanaethau mabwysiadu yn 2012. Mae rhai o'r prif bwyntiau, a oedd yn berthnasol i argymhellion cychwynnol y Pwyllgor, wedi'u nodi isod. Mae'r pwyntiau isod **yn aralleirio'r hyn a ddywedwyd wrth aelodau'r Pwyllgor**. Maent wedi llywio ffocws adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor.

### *Ymchwiliadau cychwynnol a'r broses asesu:*

- Roedd ein profiad ni'n eithaf hawdd, ond rydym ni wedi gorfod delio â phum awdurdod gwahanol.
- Cymerodd ein hasesiad 19 mis gyda bylchau mawr rhwng cyfarfodydd. A fyddai'n well cynnal cyfnod asesu sy'n llawer byrrach ond yn fwy dwys?
- Roedd yr asesiad yn ailadroddus - roedd yr un cwestiynau'n codi o hyd ac nid oedd pethau'n symud ymlaen.
- Profiadau o wallau gweinyddol a ffurflenni'n mynd ar goll.
- Dywedodd un awdurdod wrthym nad oedd modd mynd drwy'r broses baru a'r broses gymeradwyo ar yr un diwrnod - ond heb roi rheswm go iawn dros hynny. Oherwydd hyn, nid oedd ein plentyn yn gallu dod i fyw gyda ni am rai misoedd - a oedd yn gyfnod sylweddol o amser ym mywyd ein plentyn.
- Mae llawer yn dibynnu ar sgiliau gweithwyr cymdeithasol unigol. Mae hyn yn golygu bod problemau pan fydd staff yn gadael.
- Roedd Barnardo's yn wych. Cymerodd y broses gyfan lai na 6 mis.
- Roedd Cymdeithas Plant Dewi Sant yn wych - yn brydlon iawn, ac yn barod iawn i roi gwybodaeth a hyfforddiant.

### *Paru a'r dyddiau cynnar*

- Mae'r broses baru yn gymhleth.

- Mae llai o blant yn cael eu mabwysiadu ac mae hyn yn effeithio ar yr opsiynau paru. Drwyddi draw, mae angen rhagweld newidiadau ym maes mabwysiadu a recriwtio mabwysiadwyr a chynllunio gwasanaethau yn unol â hynny.
- Hoffwn i weld y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cyfathrebu ac yn rhoi cymorth yn well, a gwybod a ydym ni'n gwastraffu ein hamser yn aros am frawd neu chwaer, neu a oes unrhyw beth rhagweithiol y gallwn ni ei wneud? Rydym ni'n ei chael hi'n anodd deall sut mae pethau wedi newid mor syfrdanol (mewn dwy flynedd), ac mae'r newid cyfeiriad sydyn yn ein yn drysu braidd pan oedd yn teimlo bod llawer o fomentwm gwleidyddol y tu ôl i'r syniad bod mabwysiadu yn opsiwn da.
- Mae ar rieni sy'n mabwysiadu angen cymaint o wybodaeth gywir a chyfredol ag y bo modd gan yr ystod eang o bobl sy'n ymwneud â'r plentyn, gan gynnwys y wybodaeth feddygol ddiweddaraf. Mae'n hanfodol eu bod yn cael help i ddehongli'r wybodaeth a'i goblygiadau ar gyfer anghenion a chymorth hirdymor y plentyn. Mae'n aml yn hawdd lleoli babanod oherwydd nad yw eu hanghenion yn amlwg.
- Mae'n dda cael yr holl wybodaeth am hanes y teulu biolegol ac unrhyw faterion genetig – er nad yw hyn yn bosibl yn aml.
- Weithiau mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi gwybodaeth 'damaid wrth damaid' i rieni sy'n mabwysiadu – ond nid yw hyn bob amser yn fwriadol.
- Weithiau pan fyddwch yn gofyn mwy o gwestiynau am blant, nid oes digon o wybodaeth feddygol gyfoes ar gael, ac nid yw dogfennau asesu'r plentyn wedi cael eu diweddarau.
- Fe allai rhieni maeth deimlo weithiau nad ydynt yn gallu dweud sut un yw'r plentyn mewn gwirionedd oherwydd eu bod ofn 'codi braw' ar y rhieni sy'n mabwysiadu.
- Gallai plant fod ar eu colled oherwydd nad yw'r asesiadau ar y cyd yn cyflwyno 'darlun cadarnhaol'. Mae angen cydbwysu hyn â'r angen i gyflwyno gwybodaeth gywir.
- Oherwydd bod natur mabwysiadu wedi newid, mae siawns bod gan y plentyn broblemau meddygol/iechyd.
- Ni ddylai rhieni sy'n mabwysiadu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am chwilio am wybodaeth.

- Mae gweithiwr cymdeithasol 'da' yn hollbwysig. Mae eu capasiti yn gyfyng iawn.
- Nid yw'r system yn canolbwyntio ar bobl - mae'n canolbwyntio ar fantoli'r cyfrifon.
- Pan fydd plant mewn lleoliadau maeth, mae weithiau'n teimlo fel petaen nhw 'mewn limbo' - nid ydynt yn cael yr ymyriadau sydd eu hangen oherwydd bod pawb yn aros iddynt gael eu mabwysiadu.
- O ystyried faint o bobl sy'n gysylltiedig â'r cyfnod trosglwyddo, a fyddai'n syniad sefydlu rôl cydgysylltydd ar gyfer cymorth paru ac ar ôl mabwysiadu? Rhywun a allai oruchwylio'r cyswllt rhwng gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'r gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu. Pa gymorth sydd ar gael i fabwysiadwyr cymeradwy sy'n methu â chael eu paru? Mae hyn yn fwy cyffredin gan fod llai o blant bellach yn cael eu lleoli i'w mabwysiadu.
- O ran y broses baru, y rhieni sy'n mabwysiadu sydd 'ar waelod y domen'. Nid oes ganddynt unrhyw reolaeth dros y broses. Er ein bod yn deall bod ar rieni biolegol angen cymorth, dylid rhoi blaenoriaeth i anghenion y plentyn a dylid addasu'r system i gyd-fynd ag amserlenni sy'n gweddu i'w hanghenion nhw.
- Wrth drosglwyddo, mae'n bwysig iawn cael y manylion yn gywir er mwyn i'r broses allu bod yn foddhaus. Pan aethom ni i gwrdd â'n plant, nid oedd yr ardystiad llawn wedi ei lofnodi gan y gwasanaethau cymdeithasol. Er mai mater gweinyddol oedd hyn, fe wnaeth danseilio digwyddiad pwysig.
- Mae gofyn cael llawer mwy o gymorth i ofalwyr maeth gan fod angen cymorth arnyn nhw hefyd yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Mae gofalwyr maeth yn ffurfio ymlyniad â phlant ac ar rai achlysuron gellir gweld eu bod yn creu anawsterau yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Mae rhieni sy'n mabwysiadu weithiau yn gorfod cefnogi'r rhieni maeth trwy'r cyfnod trosglwyddo a'u teimladau o 'alar' - yn ogystal â rheoli eu teimladau eu hunain a rhai eu plant.
- Rhaid rhoi grym ac awdurdod i Gofrestr Mabwysiadu Cymru.
- Fel darpar fabwysiadwr, rydych chi'n ymdrin â system un ochrog iawn a hollol gamweithredol nad yw'n cael ei rheoleiddio hyd yn oed drwy'r gofrestr genedlaethol.

- Roedd un o'r bobl a gymerodd ran wedi cael profiad negyddol gydag Adoption Link / Link Maker.
- Pryderon ynglŷn â ffioedd rhyngasiantaethol a'r sefyllfa yn Lloegr.

### ***Gwybodaeth am brofiadau bywyd***

- Roedd yr awdurdod lleol wedi paratoi llyfr gwych am brofiadau bywyd y plentyn, ac mae Barnardo's wedi rhoi hyfforddiant inni mewn cofnodi profiadau bywyd.
- Roedd rhywun arall wedi cael gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant yn gwneud gwaith ar gofnodi profiadau bywyd y plentyn, yn hytrach na gweithiwr cymdeithasol y plentyn.
- Enghraifft dda o sut y gellir cefnogi gwaith ar gefnogi profiadau bywyd yw trwy 'ddiwrnod gwerthfawrogi bywyd' lle mae'r rhieni sy'n mabwysiadu'n cwrdd â'r holl oedolion sy'n rhan o fywyd y plentyn.
- Roedd y llythyr at y plentyn pan oedd yn hŷn yn amhriodol gan fod yr hanes yr oedd yn ei gyflwyno'n wahanol iawn i'r gwirionedd. Roedd yn ddarlun rhy hyfryd o bopeth a allai beri i'r plentyn bendroni tybed pam y cafodd ei gymryd oddi wrth ei deulu biolegol erioed.
- Roedd yr enw anghywir am fy mab yn y llythyr ato pan oedd yn hŷn. Nid oedd yn ddim mwy na 6 thudalen o A4 a gymerwyd o asesiad fy mhentyn - yn hytrach na gwybodaeth wedi'i theilwra.
- Sut rydym yn gwybod beth yw proses dda o ran cofnodi profiadau bywyd? Rhaid cael rhyw fodel arfer da.

### ***Cymorth ar ôl mabwysiadu***

- Ar ôl y mabwysiadu - rydych chi ar eich pen eich hun.
- Dylai plant a fabwysiadwyd fod â'r un statws a'r un hawl i dderbyn gwasanaethau â phlant sy'n derbyn gofal.
- Dylai fod rhagdybiaeth bod ar bob plentyn angen cefnogaeth, waeth beth yw ei oed ar adeg ei leoli. Mae'n frwydr gyson i gael gafael ar wasanaethau.
- Mae arnom angen yr hawl i gael diwallu anghenion plant - nid dim ond dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion.

- Roedd llawer o rieni wedi rhoi'r gorau i weithio oherwydd nad oedd modd darparu cefnogaeth i'r graddau yr oedd ar y plentyn ei angen. Cydnabuwyd nad oes modd i bawb wneud hyn oherwydd pwysau ariannol.
- Mae angen dull gweithio cydlynol a chydgyssylltiedig rhwng pob gwasanaeth: iechyd / addysg / gwasanaethau plant. Dylai rhywun fod yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod anghenion plant yn cael eu diwallu.
- Dywedodd y rhai a oedd wedi dod i gysylltiad â gwasanaethau'r Tîm o Amgylch y Teulu nad oedd hyn wedi helpu gan nad oeddent yn gallu darparu cefnogaeth ar y lefel yr oedd ei hangen.
- Roedd trais gan blentyn tuag at riant yn nodwedd mewn o leiaf ddau o'r teuluoedd a oedd yn bresennol.
- Mae achos cryf dros fuddsoddi mewn cymorth ôl-fabwysiadu - meddyliwch am yr arian y byddai hyn yn ei arbed i awdurdodau lleol yn y tymor hwy.

***Cymorth ar ôl mabwysiadu gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)***

- Mynegwyd llawer o bryderon ynghylch y diffyg cefnogaeth gan CAMHS i blant a fabwysiadwyd - ni all plant gael y cymorth sydd ei angen arnynt, weithiau'n cael gwybod bod 'eu hanghenion yn rhy gymhleth ar gyfer gwasanaethau CAMHS arbenigol'.
- Gwnaed cymariaethau rhwng cymorth yng Nghymru a'r cymorth ariannol yn Lloegr ar gyfer ymyriadau therapiwtig trwy'r Gronfa Cymorth Mabwysiadu.
- Er iddynt gael gwybod bod anghenion eu plant yn rhy gymhleth ar gyfer gwasanaethau CAMHS arbenigol - dywedwyd wrth rai rhieni na fydd Byrddau Iechyd Lleol yn ariannu gwasanaethau therapiwtig gan ddarparwyr allanol.
- Nid yw plant sydd ag anghenion iechyd meddygol, meddyliol ac emosiynol cymhleth yn cael eu derbyn fel cyfrifoldeb i'r gwasanaethau iechyd na'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Roedd rhieni'n deall peryglon labelu plant ond, ar yr un pryd, roeddent am gael diagnosis fel y gallai'r plant gael y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

- Nid oes gan bob plentyn a fabwysiadwyd anhwylder ymlyniad, a dylem fod yn ofalus rhag gwneud rhagdybiaeth ynglŷn â hyn.
- Byddai plant a fabwysiadwyd yn cael y mewnbynnau yr oedd eu hangen arnynt pe baent wedi aros mewn gofal maeth.
- Rhoddwyd un enghraifft o ddarparwr therapiwtig da - y Family Place yn y Gelli - ond roedd wedi cymryd amser maith i gael cyllid ar gyfer hwn.
- Dylai fod 'rhith-ganolfan ragoriaeth ar gyfer CAMHS' fel y gellir cyfeirio pobl at yr help sydd ei angen arnynt.

### ***Cymorth ar ôl mabwysiadu ar gyfer addysg***

- Cafwyd profiadau cymysg gydag ysgolion. Roedd rhai rhieni wedi derbyn cefnogaeth dda iawn.
- Gwnaed cymariaethau rhwng y Pupil Premium Plus yn Lloegr a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng Nghymru, yn arbennig y cyllid ar gyfer cymorth i unigolion.
- Caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal / wedi'u mabwysiadu ei dalu i gonsortia rhanbarthol yng Nghymru, ac nid i ysgolion unigol fel sy'n digwydd yn Lloegr.
- Dylid monitro lefelau presenoldeb yn ofalus pan fo consortia rhanbarthol yn trefnu hyfforddiant ar fabwysiadu i benaethiaid ac athrawon. Mae angen inni wneud yn siwr bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn darparu gwerth am arian.
- Gwnaed cymariaethau hefyd ynglŷn â'r oriau sydd ar gael ar gyfer yr hawl i addysg y blynyddoedd cynnar.
- Mae angen dosbarthiadau anogaeth ar lefel ysgol uwchradd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

